

Yn 2016 gwahoddwyd Jean-Sélim gan Syr Andrés Schiff i roi datganiadau solo yn rhan o'i gyfres cyngherddau Building Bridges, yn cefnogi doniau newydd.

Aeth yn ei flaen i ymddangos mewn pennaf wyliau ac oedfannau drwy hyd a lled Ewrop yn cynnwys Tonhalle Zurich, Palais des Beaux-Arts Brwsel, Gŵyl Pffingst Weimar, Schumannfest Düsseldorf, y Sendesaal (Bremen), Gwyliau Lucerne a Trasimeno. Ymhellach draw gwnaeth ei début yn Weill Hall Carnegie a 92nd Street Y yn Efrog Newydd.

Brodor o'r Swistir ydi Jean-Sélim a astudiodd y piano a chyfansoddi yn Conservatoire Lausanne a'r Guildhall School of Music & Drama. Daliai Gymrodoriaeth Piano Rebanks yn y Glenn Gould School yn Toronto ac ar hyn o bryd mae'n cwblhau ei astudiaethau ar Raglen Berfformio Syr Andrés Schiff i Bianyddion Ifainc yn Academi Kronberg. Yn 2018 enillodd Wobr Cronfa Goffa Lili Boulanger ac yn 2019 ddyfarniad Sefydliad Kiefer Hablitzel yn y Swistir.

Ymhlith uchelfannau'r flwyddyn aeth heibio bu datganiadau yng Ngŵyl Lockenhaus yn Awstria, Perth Concert Hall, Lavaux Classic a Les Jardins Musicaux yn y Swistir. Perfformiodd Mozart gyda Sinfonia ViVA, cymryd rhan yn Chamber Music Connects the World Academi Kronberg a recordio gyda'r soddgrythor Anastasia Kobekina.

Yn ystod 2018/19 daw Jean-Sélim yn ei ôl i Wigmore Hall a rhydd ddatganiadau yn Saffron Hall, Royal Birmingham Conservatoire a Kettles Yard Caergrawnt. Mae'n dal i gydweithredu ag Anastasia Kobekina yn cymryd rhan yng Ngŵyl y Soddgrwth BBC Radio 3 ac yn rhoi cyngherddau drwy hyd a lled yr Almaen. Ac yntau'n gerddor siambr ymroddedig, bu Jean-Sélim yn IMS Prussia Cove, ac yn 2016 enillodd wobr ensemble Premi de Música de Cambra Montserrat Alavedra.

Mae Jean-Sélim yn gyfansoddwr aruthrol o ddawnus a pherfformiwyd ei weithiau gan Heinz Holliger, Antje Weithaas, Patricia Kopatchinskaja, Sylvia Nopper, Gilles Colliard ac Einar Steen-Nokleberg, a chan ensembles yn cynnwys Orchestre de Chambre de Toulouse, Unawdwy Siambr y Swistir, Camerata Bern, Zürcher Kammerorchester ac Ensemble Sequence.

Yn sgil diddordeb mewn ffilm cydweithredodd â sawl cyfarwyddwr yn cynnwys sgrifennu trac sain *Love After Sunrise* gan Hadi Ghandour, ac ennill gwobrau yng Ngŵyl LA International New Wave ac yng Ngŵyl Norwich yn 2011.

Yn ystod ei astudiaethau enillodd Jean-Sélim wobrau fyrdd, yn banydd ac yn gyfansoddwr, gan gynnwys y Wobr Gyntaf yn Lausanne Concours d'interprétation musicale 2013, y Wobr Gyntaf yng Nghystadleuaeth Cyfansoddwyr Grieg 2012 yn Oslo a'r Drydedd Wobr yng Nghystadleuaeth Piano Ciurlionis 2015 yn Vilnius. Dyfarnwyd iddo Wobr Wigmore Hall y Guildhall School of Music & Drama yn 2015, dyfarniad Ymddiriedolaeth Tillet yn 2014, a chymrodd ran mewn dosbarthiadau meistr gyda Ferenc Rados, Syr Andrés Schiff, Dénes Várjon, Mitsuko Uchida, Imogen Cooper, Stephen Hough, Angela Hewitt, Richard Goode a Leon Fleisher. Mae'n ddiolchgar am gyngor ynghylch cyfansoddi gan George Benjamin a Heinz Holliger.

Cefnogir Jean-Sélim gan Sefydliad Leenards, Dinas Nyon, Sefydliad Fritz Bach, y Clwb Rotari a Sefydliad Denereaz.